OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2058 (Cy.177)

# Y GWASANAETHIECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Gorffennaf 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 18(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 iddi(**1**), ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009 a daw i rym ar 1 Awst 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i “dyddiad gweithredol” yr ystyr a roddir i (“*operational date*”) ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr “dyddiad sefydlu” (“*establishment date*”) yw 1 Awst 2009;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “yr ymddiriedolaeth” (“*the trust*”) yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

### Sefydlu'r ymddiriedolaeth

**2.** Sefydlir ymddiriedolaeth GIGo'r enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru neu the Public Health Wales National Health Service Trust.

### Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth

**3.**—(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y diben a bennir yn adran 18(1) o'r Ddeddf.

(2) Dyma swyddogaethau'r ymddiriedolaeth:

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) 1993 p.38.

(a) darparu i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, neu mewn perthynas ag ef, a rheoli amrediad o wasanaethau iechyd cyhoeddus, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori ar iechyd, amddiffyn plant a labordy microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwyliadwriaeth dros glefydau trosglwyddadwy, a'u hatal a'u rheoli;

(b) datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer peri bod gwybodaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru; gwneud a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a darparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath;

(c) gwneud yn systematig y gwaith o gasglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth ynghylch iechyd pobl Cymru, gan gynnwys yn enwedig fynychder achosion o gancr, eu marwoldeb a'u goroesiad; a chyffredinolrwydd anghysonderau cynhenid; ac

(ch) darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a gwneud ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion ymwneud ag iechyd.

**Cyfarwyddwyr yr ymddiriedolaeth**

**4.** Mae gan yr ymddiriedolaeth, yn ychwanegol at y cadeirydd, 6 o gyfarwyddwyr anweithredol a 5 cyfarwyddwr gweithredol.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifydda'r ymddiriedolaeth**

**5.**—(1) Dyddiad gweithredol yr ymddiriedolaeth yw 1 Hydref 2009.

(2) Dyddiad cyfrifydda'r ymddiriedolaeth yw 31 Mawrth.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol**

**6.** Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i ddyddiad gweithredol mae gan yr ymddiriedolaeth y swyddogaethau canlynol—

(a) ymrwymo i gontractau GIG;

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y fath bethau eraill ag sydd yn rhesymol angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau gweithredu yn foddhaol gydag effaith o'i ddyddiad gweithredol.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Gorffennaf 2009

## EXPLANATORY NOTE

(Nid y 'r nodyn h n yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ymddiriedolaeth GIG y darperir ar ei chyfer yn adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hefyd yn darparu ar gyfer swyddogaethau'r ymddiriedolaeth cyn ei dyddiad gweithredol (sef y dyddiad pan yw'n ymgymryd â'i holl swyddogaethau) (erthygl 6) ac ar ôl hynny (erthygl 3) ac mae'n pennu rhif y cyfarwyddwyr yr ymddiriedolaeth (erthygl 4) a dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifydda'r ymddiriedolaeth (erthygl 5).